





Beth mae Amcan 1 wedi ei wneud i mi?

Bwrdd Rheoli Partneriaeth
Sir Benfro

YR UNDEB EWROPEAIDD
AMCAN 1
EUROPEAN UNION
OBJECTIVE 1

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Amcan 1

Beth Mae Amcan 1 Wedi Ei Wneud i Mi?

Cynnwys

Rhagair 3



Datblygu Cymunedau sy'n Ffynnu 4



Annog Pobl i Gyflawni eu Potensial 11



Gwella'r Cysylltiadau i mewn i'r Sir, allan ohoni ac oddi mewn iddi 6



Hyrwyddo Amgylchedd Glân, Iach a Gwerthfawrt 13



Cyflawni Twf Economaidd Ar Sail Angen Lleol 8



Prosiectau Rhanbarthol o Dan Nawdd Amcan 1 15

I gael copi o'r cyhoeddiad hwn mewn Braille, mewn print brasach, ar dap sain, neu iaith arall, byddwch cystal a chysylltu a Chyngor Sir Penfro ar (01437) 776613

Argraffwyd ar Bapur Ailgylchedig

Byrfoddau
- WEFO – Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- BRhPSB – Bwrdd Rheoli Partneriaeth Sir Benfro

Ffynonellau – Dadansoddiad o Adroddiad Monitro Chwarterol WEFO ar gyfer Chwefror 2007, Dadansoddiad Economaidd-Gymdeithasol ac Amgylcheddol Cyngor Sir Penfro o Sir Benfro (2007), Adroddiadau Blynyddol BRhPSB

Lluniau – Trwy garedigrwydd Noddwyr y Prosiect a Rohan Holt

Rhagair



Y Cynghorydd
John Allen-Mirehouse
Cadeirydd

Croeso i'n Llyfryn Amcan 1. Y newyddion da yw bod Sir Benfro wedi elwa ar fuddsoddiad o £100 miliwn o ganlyniad i gyllid Amcan 1 Ewropeaidd a dderbyniwyd rhwng 2000 a 2006!

Mae'r llyfryn hwn wedi ei gyhoeddi i roi sylw i'r hyn sydd wedi ei gyflawni gyda'r cyllid hwn. Nid ydym wedi gallu cynnwys pob un o'n prosiectau llwyddiannus, ond mae pob un sy'n cael sylw yma wedi cyfrannu rhyw fodd neu'i gilydd tuag at:

- greu swyddi cynaliadwy
- helpu busnesau i fuddsoddi a thyfu
- helpu pobl i ddysgu sgiliau a chael gwaith
- gwella ein hadeiladau
- diogelu a gwella ein hamgylchedd arbennig

Cyfrannodd Amcan 1 i lwyddiant amrywiaeth enfawr o gynlluniau yn cynnwys rhoi syniadau arloesol ar waith ym maes cludiant a rhoi grantiau a chefnogaeth i fusnesau lleol a phrosiectau cymunedol; adeiladu unedau diwydiannol newydd a chefnogi grwpiau o bobl ifanc agored i niwed ym mhob rhan o Sir Benfro, a llawer mwy.



Fiona Walder
Is-Gadeirydd

Yr hyn y mae cyllid Ewropeaidd yn ceisio ei wneud yw helpu'r rhanbarthau hynny lle mae'r datblygiad yn araf i ddod yn fwy llewyrchus. Yn wir, mae ffigyrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos bod economi Sir Benfro yn gwella a bod llai o ddiweithdra yn y sir nag ers blynyddoedd lawer.

Y rhan a gyflawnodd Bwrdd Rheoli Partneriaeth Sir Benfro (BRhPSB) yn hyn o beth oedd cadw golwg ar y modd y cyflwynwyd Amcan 1 yn Sir Benfro. Roedd aelodau BRhPSB, o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn gallu rhoi cyngor i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ynglŷn â'n blaenoriaethau, oherwydd mai gan WEFO oedd y cyfrifoldeb cyfreithiol am benderfynu'r modd y byddai cyllid Amcan 1 yn cael ei wario.

Fel Cadeirydd BRhPSB mae'n rhaid i mi ddiolch i bob un o'r sefydliadau a weithredodd brosiectau Amcan 1 yn Sir Benfro: i'r rhain y mae ein dyled am ein llwyddiant. Rwy'n diolch hefyd i holl aelodau BRhPSB, gweithwyr WEFO a holl weithwyr Datblygiad Ewropeaidd ac Economaidd Cyngor Sir Penfro a fu'n adran ysgrifenyddol ar gyfer BRhPSB.



Stephen Cole
Is-Gadeirydd

Beth am y dyfodol felly? Erbyn hyn mae cyfnod y rhaglen Amcan 1 wedi dod i ben, ond mae Gorllewin Cymru wedi sicrhau cyllid gyda'r Cynllun Datblygu Gwledig a'r Rhaglenni Cydgyfeirio Ewropeaidd ar gyfer 2007 i 2013. Ein bwriad nawr yw adeiladu ar sail yr hyn sydd orau yn Amcan 1 a mynd â llwyddiant Sir Benfro yn ei flaen i'r dyfodol.

John Allen-Mirehouse
Cadeirydd, BRhPSB

Cadeirydd, BRhPSB
Hoffai Adran Ysgrifenyddol BRhPSB ddiolch i aelodau BRhPSB a holl noddwyr y prosiect a gyfrannodd tuag at gynhyrchu'r llyfryn hwn.

Adran Ysgrifenyddol BRhPSB: t/l Yr Adran Datblygu Economaidd, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP 01437 776175
gwyn.evans@pembrokeshire.gov.uk

Amcan 1 | *Datblygu Cymunedau sy'n Ffynnu*



Cronfa Allweddol Sir Benfro (PAVS)

Sefydlwyd cynllun grant Cronfa Allweddol Sir Benfro er mwyn i grwpiau gwirfoddol a chymunedol fedru gwneud cais uniongyrchol am gyllid Ewropeaidd trwy gynllun mwy syml, wedi ei weinyddu'n lleol ac wedi ei gyfatebu o flaen llaw.

Roedd y profiad a gafwyd gyda chynlluniau Ewropeaidd blaenorol wedi dangos bod y gofyn am arian cyfatebol a chymhlethdodau'r cais a'r broses o fonitro yn arbennig o anodd i grwpiau cymunedol.

Yn gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol, dechreuodd Cyngor Sir Penfro a PLANED gynllun y Gronfa Allweddol ym mis Medi 2002. Cafodd ei gweinyddu gan PAVS, sef Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro.



Gan gynnig grantiau rhwng £3,000 a £10,000, parhaodd y cynllun tan Chwefror 2006. Yn ystod y cyfnod hwn, dyrannwyd £367,138 i 48 o grwpiau gwirfoddol yn y Sir.

Mae effaith y cynllun ar grwpiau yn Sir Benfro wedi bod yn bellgyrhaeddol. Hyd yma, mae 19 o swyddi rhan amser wedi eu creu, 13 o adeiladau wedi eu gwella a 25 o brosiectau wedi derbyn cyllid i wella gwasanaethau cymunedol.



Balchder yn ein Cymunedau

(Cadw Cymru'n Daclus)

Bwriad y prosiect hwn yw 'lleihau tipio anghyfreithlon unwaith ac am byth trwy annog cymunedau i fod yn gyfrifol am eu problemau lleol eu hunain'.

Maent yn mynd i'r afael â hyn yn y cymunedau hynny trwy fentrau sy'n cyfuno addysg, gorfodi, atal a gwella ymarferol. Mae'r prosiect sy'n derbyn ei gyllid o Amcan 1 yn anelu at ddeiliaid tai, busnesau ac eraill a allai fod yn cyfrannu i'r broblem.

Sefydlwyd y prosiect yn gyntaf yn rhan o bartneriaeth er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithiol yn Ne Orllewin Cymru. Yn sir Benfro, mae swyddogion y prosiect yn gweithio gyda'u partneriaid i hyrwyddo ymwybyddiaeth o broblemau tipio anghyfreithlon, annog pobl i ymdrin â gwastraff mewn modd mwy cynaliadwy a'i gwneud yn anoddach i dipwyr anghyfreithlon fwrw eu gwastraff. Maent hefyd yn gweithio tuag at erlyn y bobl sy'n tipio'n anghyfreithlon.

Hyd yma, mae pedwar lle wedi ei lanhau, yn cynnwys digwyddiad o bwys yn Hobbs Point ym mis Mehefin 2006. Hyd yma, mae gwirfoddolwyr wedi clirio 11 tunnell o wastraff



- Dechreuodd y rhaglen Amcan 1 yn y flwyddyn 2000 a daeth i ben y 31 Rhagfyr 2006.
- Noddwyd y rhaglen Amcan 1 gydag £1.3 biliwn o Gronfeydd Strwythurol yr UE

Supporting Communities (PLANED)

Aeth PLANED (Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro tros Fenter a Datblygu) am arian Amcan 1 er mwyn annog pobl a sefydliadau lleol a chynrychiolwyr etholedig i ddod ynghyd i ddarganfod anghenion cymunedau a defnyddio sgiliau a doniau i gefnogi gweithgareddau cymunedol.

Bwriad y prosiect oedd annog cymunedau i gymryd rhan mewn prosiectau adfywio a fyddai'n creu rhagor o weithgarwch economaidd a helpu unigolion i fagu hyder ac yna chwilio am waith trwy ddefnyddio'r sgiliau a'r profiad a gafwyd trwy gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol.

Roedd Cynlluniau Gweithredu Cymunedol yn rhan fawr o'r gweithgarwch cymunedol.



Gweithiodd pobl leol trwy Fforymau Cymunedol i lunio a gweithredu prosiectau a oedd yn amrywio o ddarparu cyfleusterau cymunedol a chyhoeddi newyddlenni lleol i weithgarwch a oedd yn ymwneud â gwella'r amgylchedd a threftadaeth.

Bu PLANED yn helpu i greu mwy na 40 o Gynlluniau Gweithredu a 35 o brosiectau. Amlygodd hyn y modd y mae amrywiaeth o brosiectau ymarferol yn gallu helpu i feithrin ysbryd y gymuned, gwella ansawdd bywyd a bod o fudd i'r economi leol. Fe gewch ragor o wybodaeth ar www.planed.org.uk



Dysgu yn y Sector Gwirfoddol (PAVS)

Bwriad y prosiect hwn yw darparu hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr, gweithwyr cyflogedig ac ymddiriedolwyr sy'n gweithio yn sector gwirfoddol a chymunedol Sir Benfro, trwy ddatblygu seilwaith dysgu cynaliadwy yn y sector gwirfoddol.



Ers dechrau'r prosiect, mae mwy na 500 o ddysgwyr wedi ymuno â 60 o gyrsiau a gyflwynwyd trwy'r rhaglen hyfforddi agored. Hefyd, mae'r prosiect wedi cefnogi cyrsiau noddedig a gyflwynwyd trwy gynlluniau dysgu sefydliadol. Yn ogystal â chyflwyno cyrsiau'n uniongyrchol. Mae PAVS wedi hwyluso 10 o weithdai 'Ychwanegu at eich Sgiliau' yn ymwneud â dadansoddiad cyfranogol o anghenion hyfforddi ar gyfer grwpiau a rhwydweithiau yn y sector gwirfoddol (128 o bobl yn cymryd rhan), ac wedi trefnu 2 gynhadledd (110 yn cymryd rhan).

Gyda chwarter y cyrsiau a gyflwynwyd trwy'r prosiect Dysgu yn y Sector Gwirfoddol roedd dewis i'r dysgwyr o gyflawni cymhwyster gyda chydnabyddiaeth genedlaethol. Gyda 148 o ddysgwyr wedi eu cofrestru ar gyfer achrediad, mae'r prosiect wedi llwyddo i roi modd i 70% o'r rhain gyflawni'r cymhwyster, ac wedi helpu 5% ar ben hynny i weithio tuag at gyflwyno portffolios RhCA.



- Mae'r ardal Amcan 1 yn ymestyn tros oddeutu 60% o Gymru – yn cynnwys Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
- Gweinyddir Amcan1 yng Nghymru trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), sy'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Amcan 1

Gwella Cysylltiadau i mewn i'r Sir, allan ohoni ac oddi mewn iddi



Prosiect Datblygu Cynllun Rhannu Bws Mini Cymunedol Sir Benfro (PACTO)

Bwriad y prosiect hwn yw i fysiau mini fod ar gael yn fwy hwylus i grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol. Mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu gan PACTO (Cymdeithas Sefydliadau Cludiant Lleol Sir Benfro) gyda chyllid Amcan 1, Cyngor Sir Penfro a Chludiant Gwirfoddol Sir Benfro.

Gyda'r cynllun hwn mae PACTO wedi cael bws mini sy'n gallu derbyn cadair olwyn, sy'n golygu bod saith o fysiau mini ar gael i'r grwpiau cymunedol eu defnyddio. Mae'r prosiect yn datblygu system 'rhannu dyddiadur' ar gyfer bwcio cerbydau. Mae wedi sefydlu tîm hyfforddi i asesu gyrwyr bws mini ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol ac mae'n parhau hefyd i ddatblygu gwasanaethau Galw Cerbyd ar gyfer pobl nad oes cludiant arall ar gael iddynt – yn enwedig ym Maenclochog a'r cylch.



Ar ben hyn, mae'r prosiect wedi darparu cydlynydd rhan amser ar gyfer Cymdeithas Cludiant Gwledig y Preseli, sy'n rhedeg bws mini'r Ddraig Werdd yn yr ardal. Fe gewch ragor o wybodaeth ar www.pembrokeshiretransport.co.uk



Y Prosiect mDdysgu (Coleg Sir Benfro)

Dechreuodd y prosiect mDdysgu yn 2005 gyda'r amcan o annog unigolion rhwng 16 a 24 mlwydd oed, nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant na gwaith, i adolygu eu ffordd o fyw a chyflawni eu huchelgais.

Hyd at ddechrau 2007, mae cyfanswm o 63 o unigolion wedi cofrestru gyda'r prosiect. Mae deg o'r 21 sydd wedi gadael y prosiect wedi cael lle mewn addysg amser llawn neu mewn gwaith ac wedi ennill cymwysterau. Mae llawer o'r rhai sy'n dal gyda'r prosiect eisoes wedi ennill cymwysterau ac yn gweithio i wella ar sail yr hyn y maent wedi ei gyflawni.

Mae mDdysgwyr yn derbyn hyfforddiant un ag un wythnosol mewn lle y maent hwy'n ei ddewis a phan fo'n briodol maent yn cael benthyg un o'r Cynorthwywyr Personol Digidol (CPD) diweddaraf o'u math. Mae'r cyfarpar hwn yn fodd iddynt gysylltu gyda'u mDiwtor, chwilio'r we a dysgu ar-lein.

Yn 2006 enillodd y prosiect Wobr Beacon Cenedlaethol am ddefnyddio technoleg mewn modd arloesol yn yr amgylchedd dysgu.



- Sefydlwyd BRhPSB er mwyn cynnig cyngor i WEFO ynglŷn â phrosiectau sy'n effeithio ar Sir Benfro
- Roedd adran ysgrifenyddol BRhPSB a sefydlwyd gan Gyngor Sir Penfro yn rhoi gwasanaeth cyngor am ddim i ymgeiswyr er mwyn bod o gymorth iddynt gyda chael cyllid.

Gwella Cysylltiadau i mewn i'r Sir, allan ohoni ac oddi mewn iddi

Amcan 1

Hyrwyddo Lonydd Glas (PLANED)

Mae Lonydd Glas Sir Benfro yn annog trigolion lleol ac ymwelwyr i fynd i gefn gwlad gyda chludiant cynaliadwy fel cerdded, beic, bws a thrên.

Mae rhaglen y Lonydd Glas yn gweithredu ym mhob rhan o Sir Benfro ac mae'n cael ei rheoli gan Bartneriaeth y Lonydd Glas. Mae'r partneriaid yn cynnwys; Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Grŵp Mynediad Sir Benfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro a PLANED. Mae 'Fforwm Ymgynghorol' hefyd o fusnesau a sefydliadau lleol.

Mae cynlluniau llwyddiannus y mae Lonydd Glas wedi eu datblygu yn cynnwys adeiladu cyfleusterau gyda modd i bobl ag anableddau fynd iddynt, gwasanaethau bws arfordirol Sir Benfro, sef y 'Pâl', sy'n rhedeg lan a lawr glannau'r Parc Cenedlaethol i gyd a chyfres o lwybrau cerdded a beicio gydag arwyddion ffordd a chysylltiadau â chludiant cyhoeddus.

Mae'r gweithgareddau diweddar yn cynnwys 'Dyddiau Masnach Lonydd Glas Sir Benfro' sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor i



fusnesau ym maes twristiaeth, a hyrwyddo nifer o fentrau beicio fel Llwybr 4 & 47 o 'Lwybr Celtaidd' y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.



Porthol e-Ddysgu Sir Benfro

(Cyngor Sir Penfro)

Mae Porthol e-Ddysgu Sir Benfro yn borth trwy'r we i addysg oedolion. Mae'n cynnwys amrywiaeth fawr o bynciau, ac yn cefnogi cyrsiau a oedd yn arfer cael eu dysgu trwy ddulliau traddodiadol gyda gweithgareddau ac adnoddau ar-lein.

Mae'r Porthol yn debyg i gasgliad o wefannau wedi eu corlannu ynghyd i greu byd o wybodaeth addas i anghenion unigol. Mae'n unigryw yn gymaint â'i fod yn cyfuno gweithgareddau amlgyfrwng, rhannu dogfennau, sgwrsio, trafod, arolygon a gwefannau, yn ogystal â fideo a fideo-gynadledda ar alwad.

Mae'n cynnig amgylchedd diogel i ddysgu ynddo ac mae modd mynd iddo gydag unrhyw gyfrifiadur a gliniadur sy'n gallu mynd ar y we. Mae'n borthol digon hyblyg i fedru anelu at ddysgwyr newydd fel pobl yng nghefn gwlad ac mewn ardaloedd lle mae amddifadedd cymdeithasol, a fyddai'n anodd fel arall iddynt ddod at gyfleoedd i ddysgu'n ffurfiol.



Disgwylir y bydd mwy na 2,300 o ddysgwyr newydd yn elwa ar y prosiect.



- Dyrannwyd cyfanswm i Sir Benfro o of £4.4 m o gyllid Datblygu Gwledig Amcan 1.
- Aeth £1.5 m o'r cyllid i etholaethau gyda blaenoriaeth; Maenclochog, Llandudoch, Doc Penfro – Llanion a'r Canol, a Chil-maen.

Amcan 1

Cyflawni Twf Economaidd ar sail Angen Lleol



Datblygu'r Diwydiant Olew a Nwy yn Sir Benfro (PBI)

Mae'r prosiect ENERGIZE yn canolbwyntio ar ddatblygiad strategol BBaCh yn Sir Benfro sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r sectorau sy'n ymwneud ag olew, nwy ac ynni cysylltiedig.

Mae'r prosiect yn derbyn ei gyllid oddi wrth PBI, Amcan 1, a rhaglenni Ffordd i Ffyniant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ei fwriad yw helpu BBaCh i wasanaethu'r sector ynni lleol yn ogystal â datblygu'r strategol i weithredu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.



Cyflwynir y prosiect gan ymgynghorwyr arbenigol, sy'n cynnig cefnogaeth i gwmnïau er mwyn cyflawni gofynion y sector ynni.

Mae'r gwasanaethau yn cynnwys hefyd ymgynghoriaeth allanol noddedig ar gyfer gwelliannau mewn busnes, a hyrwyddo'r hyn sydd gan BBaCh lleol i'w gynnig i burfeydd a phrosiectau adeiladu o dan faner 'Grŵp Ynni Aberdaugleddau'.

Mewn dwy flynedd, mae mwy na 90 o gwmnïau lleol wedi elwa ar gefnogaeth ENERGIZE ac mae gwefan y rhaglen www.energizewales.com yn derbyn mwy na 1,000 o ymwelwyr y mis o bedwar ban byd



Parc Busnes Haven's Head (MHPA)

Rhoddwyd cyllid i Cedar Court yn Aberdaugleddau i ddarparu swyddfeydd o'r radd flaenaf a rhoi hwb i gynnydd busnes yn y dref. Bwriad gofynion y prosiect oedd rhoi sylw i anghenion busnesau grymus a oedd yn chwilio am safle neu adeilad i gyd-fynd â'u huchelgais.

Mae Cedar Court yn cynnig cyfleusterau proffesiynol mewn lleoliad deniadol ac mae wedi llwyddo i ddenu busnesau lleol newydd a rhai sy'n cynyddu, yn ogystal â'r rhai sy'n symud i'r ardal, yn arbennig y rhai sy'n bwriadu gweithio gyda TGCh.

Mae Cedar Court yn cynnig swyddfeydd cyfoes y mae eu safon yn well neu'n cymharu gydag unrhyw rai yng Ngorllewin Cymru. Mae arwynebedd mewnol y swyddfeydd yn 2,138m^2, gyda chynlluniau mewnol hyblyg y mae modd eu haddasu ar gyfer gofynion unigol.

Mae'r manylion yn cynnwys modd oeri'r aer, lloriau wedi eu codi, cydymffurfio'n llwyr â DDA, systemau diogeled a band llydan. Mae'r cyfleusterau ar y safle yn cynnwys gwarchodfa i fabanod a phlant bach, digonedd o le i barcio, gyda siopau a thai bwyta digon agos i gerdded iddynt.



Gyda chefnogaeth Amcan 1 yn unig y cyflawnwyd safonau a manylion clodwiw Cedar Court.

- Erbyn mis Chwefror 2007, cyfanswm y grant a ddyrannwyd i brosiectau yn Sir Benfro oedd £38,313,354.
- Erbyn Chwefror 2007, cyfanswm yr hyn a fuddsoddwyd mewn prosiectau yn Sir Benfro, yn cynnwys arian cyfatebol, oedd £99,170,056.

Datblygiad Tecniwm Sir Benfro

(Cyngor Sir Penfro)

Mae'r prosiect Tecniwm yn rhan o strategaeth hirdymor i ehangu sail economaidd Sir Benfro. Yn y tymor byrrach bydd yn ffocws ar gyfer cynnydd busnesau newydd sy'n datblygu cynhyrchion a thechnolegau newydd.

Mae Tecniwm Sir Benfro yn bartneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Sir Penfro, Prifysgol Abertawe a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Talwyd am yr adeilad hwn sy'n gydnaws â'r amgylchedd yn Noc Penfro trwy gyfuniad o Gronfeydd Amcan 1 ac Adfywio Lleol. Y ffynonellau hyn, gyda chyfraniadau gan y Cyngor Sir a Phrifysgol Abertawe, a fydd yn gofalu am y costau gweithredu cyntaf hyd nes bydd y prosiect yn gallu talu ei ffordd ei hun.

Mae 19 o Unedau Deor yn y prif adeilad a 13 ar ben hynny o Unedau Twf ar gyfer busnesau tenant, a fydd yn elwa ar ddarpariaeth ar y safle o gefnogaeth busnes ac academaidd o'r radd flaenaf. Ymysg y tenantiaid newydd, mae'n bosibl y bydd busnesau newydd gychwyn, ehangu gweithgareddau Ymchwil a Datblygu ar gyfer busnesau lleol presennol, buddsoddwyr o'r





tu allan a sgil-gwmnïau o'r Brifysgol a Choleg Sir Benfro.

Bydd gan Ysgol Beirianneg ac Ysgol Gyfraith Prifysgol Abertawe bresenoldeb parhaol yn y Tecniwm yn gwneud ymchwil i dechnolegau ynni carbon isel newydd. Bydd y rhain yn cynnwys datblygu Canolfan ar gyfer Ynni a Chyfraith Amgylcheddol, Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Bioburo a Labordy Electroneg P'wer gyda'r holl offer.

Er bod Tecniwm Sir Benfro yn ymwneud yn bennaf ag ynni, mae cefnogaeth ar gael i fusnesau sy'n gweithio ar brosiectau uwch-dechnoleg arloesol o sectorau eraill. Bydd tîm Tecniwm yn ymorol am gefnogaeth academaidd briodol yn ôl y galw i roi sylw i anghenion busnes. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan rhwydwaith Tecniwm (www.technium.co.uk)

Mae'r Tecniwm yn rhan o rwydwaith o gyfleusterau tebyg ar hyd a lled Cymru. Maent yn dod at ai gilydd trwy Rith Rwydwaith Preifat, sy'n fodd i denantiaid weithio gyda chysylltiadau data cyflym iawn a theleffoni VOIP.





- Mae 130 o brosiectau lleol a gefnogwyd gan BRhPSB wedi eu cymeradwyo i dderbyn cyllid
- Mae rhai prosiectau Amcan 1 wedi bod yn rhanbarthol ac wedi gweithredu ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn cynnwys Sir Benfro.

Amcan 1

Cyflawni Twf Economaidd ar sail Angen Lleol



Dynodi a Datblygu Cynhyrchion Twristiaeth Newydd yn Sir Benfro (PBI)

Nod y prosiect hwn gan Dwristiaeth Sir Benfro yw helpu busnesau micro a bach yn y diwydiant twristiaeth yn Sir Benfro i ddod yn fwy cystadleuol trwy ddatblygu dull o ymdrin ar y cyd â chreu dyfodol cynaliadwy.

Mae'r prosiect yn ymwneud yn bennaf â datblygu sail gadarn i dwristiaeth, trwy hyrwyddo Sir Benfro yn lle deniadol i ddod iddo gydol y flwyddyn.



Bwriad Twristiaeth Sir Benfro yw gwella ansawdd y profiad y mae ymwelwyr yn ei gael er mwyn rhoi sylw i'r anghenion cyfnewidiol sydd ganddynt ac mae'n cynghori ymdrin â thwristiaeth mewn modd cynaliadwy sy'n well i amgylchedd unigryw Sir Benfro. Mae sawl math o gymorth y gellir ei roi i fusnesau, yn cynnwys digwyddiadau rhwydweithio, hyfforddiant am ddim neu gyda gostyngiad yn ei gost, cymorth gyda marchnata, a rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r ddibyniaeth ar y tymhorau. Mae Twristiaeth Sir Benfro wedi canolbwyntio ar greu sail gadarn o aelodau, ac mae wedi dechrau gwefan ar gyfer ymwelwyr ac aelodau.

Ymysg y digwyddiadau llwyddiannus roedd Cynhadledd Fordaith lle'r edrychodd aelodau ac eraill ar ddulliau y gallai busnesau weithio gyda'i gilydd i annog pobl ar fordeithiau i wario arian yn Sir Benfro.



Parc Busnes Johnston

(Datblygiad Court Vale Cyf)

Mae Parc Busnes Johnston yn ganolfan fusnes hollol newydd wedi ei hadeiladu i'r diben, hanner ffordd rhwng Hwlffordd ac Aberdaugleddau.

Mae gan y datblygiad bump o unedau diwydiannol 1,000m^2 o'r radd flaenaf. Mae'r adeiladau a'r safleoedd yn arbennig o addas ar gyfer busnesau yn y sectorau diwydiannol ysgafn. Mae'n addas hefyd i'r rhai y mae arnynt angen stordy neu warws.

Mae gan y parc busnes reolaeth ar y safle, parcio a'r holl brif wasanaethau yn cynnwys nwy. Mae'n bosibl creu prydlesi arbennig ar gyfer gofynion unigol.



Mae Sir Benfro ymysg y gorau yn y DU am ddechrau busnesau a'r uchaf yng Nghymru, ond mae yno brinder unedau ar gyfer busnesau newydd sydd ar gychwyn, busnesau bach ar gynnydd a'r rhai sy'n symud. Mae Amcan 1 wedi bod yn gymorth i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn trwy gefnogi prosiectau i godi adeiladau neu safleoedd sy'n addas ar gyfer anghenion busnesau lleol a buddsoddwyr allanol.

Rhagwelir creu dwy swydd ar gyfer pob uned.

- Mae Amcan 1 wedi helpu busnesau bach a chanolig eu maint yn Sir Benfro mwy na 12,000 o weithiau
- Mae busnesau wedi derbyn cyngor pwysig ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff a sut i ennill contractau yn y sector cyhoeddus.

Y Ganolfan Arloesi Technoleg

(Coleg Sir Benfro)



Mae arloesi yn un o ofynion hanfodol busnesau newydd. Mae'n cynnwys datblygu diwylliant rhagweithiol yn y gymuned fusnes a dyma'r broses allweddol sy'n fodd i fusnesau'r DU gystadlu yn y byd.

Mae'r Ganolfan Arloesi yng Ngholeg Sir Benfro yn ymfalchïo mewn amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i fusnesau yn ac o amgylch Sir Benfro. Mae'r Ganolfan, sydd ar brif gampws y coleg, yn elwa ar yr wybodaeth, yr arbenigedd a'r cyfleusterau arbenigol sydd gan y Coleg.

Mae'r dechnoleg ddiweddaraf a mwyaf datblygedig ar gyfer dylunio, peirianneg, adeiladu, busnes, marchnata, cyfryngau, ffotograffiaeth a cherddoriaeth ar gael i fyfyrwyr a busnesau. Mae adnoddau arbenigol a staff hyfforddedig yn darparu amrywiaeth o gyrsiau amser llawn a rhan amser mewn addysg bellach ac uwch, mewn pynciau sy'n hanfodol bwysig i ddatblygu economi gystadleuol sy'n meddu ar sgiliau o'r radd flaenaf.

Hefyd yn y Ganolfan Arloesi mae chwech o unedau deor busnesau, lle mae mentrwyr lleol yn gallu datblygu eu busnesau mewn amgylchedd gyda chefnogaeth broffesiynol.



Hyfforddiant i Ddarparwyr Awyr Agored

(Ymddiriedolaeth y Tywysog)

Bu arian Amcan 1 yn gymorth i Ymddiriedolaeth y Tywysog lunio rhaglen hyfforddi ar gyfer Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored. Cafodd y rhaglen TOPS lwyddiannus ei datblygu i feithrin hyfforddwyr yn lleol er mwyn mynd i'r afael â phrinder difrifol o weithwyr gweithwyr gweithgareddau awyr agored cymwys a lleol.

Prif fwriad y rhaglen oedd helpu'r bobl a oedd yn cymryd rhan i ennill cymwysterau a chael swyddi er mwyn diwallu anghenion y diwydiant lleol. Felly, penodwyd hyfforddwyr gyda llawer o brofiad i weithredu'r rhaglen. Yn ystod ei thair blynedd gyntaf, hyd at y flwyddyn 2000, elwodd 64 o bobl ddi-waith ar yr hyfforddiant.

Enillodd tri deg naw o bobl gymwysterau perthnasol. Cafodd pedwar ar bymtheg o'r rhain swyddi uniongyrchol yn y sector gweithgareddau awyr agored, a chafodd pedwar ar ddeg swyddi mewn diwydiannau cysylltiedig. Daliodd pedwar ar hugain ati o dan hyfforddiant wedi i'r rhaglen ddod i ben. Dangosodd y prosiect hwn bod angen hyfforddiant o'r radd flaenaf yn y diwydiant gweithgarwch awyr agored. Erbyn hyn mae llawer o ddarparwyr awyr agored yn cynnig hyfforddiant lleol i ddarpar hyfforddwyr.



- Ers y flwyddyn 2000, mae Amcan 1 wedi helpu i greu mwy na 4,000 o swyddi yn Sir Benfro
- Mae Amcan 1 wedi helpu unigolion gyda sgiliau, cyngor gyrfaol ac/neu ofal plant mwy na 32,000 o weithiau

Amcan 1

Annog Pobl i Gyflawni eu Potensial



POPPI (Ymddiriedolaeth Reoli Barcty Penfro)



Bwriad y prosiect POPPI yw rhoi ail gyfle gyda chyfleoedd i ddysgu a chael sgiliau gwaith i 150 o bobl ifanc dan anfantais yn ardal Penfro a Doc Penfro. Mae hefyd wedi darparu 25 o gyfleoedd i wirfoddolwyr.

Ers cychwyn y prosiect ym mis Ionawr 2006, mae 173 o bobl ifanc wedi dechrau gweithio ar gyfer un cymhwyster neu ragor o Lefel Mynediad - Lefel 2. Mae'r fenter yn golygu bod pobl ifanc yn gallu cyflawni nid yn unig cymwysterau ond hefyd rhagor o hyder a hunan-barch, a gwella eu sgiliau personol a chymdeithasol.

Er mai prosiect annibynnol yw POPPI, mae'n rhan annatod o ddarparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc yr ardal. Mae'r prosiect yn helpu i ddarparu gwaith pontio ac mae wedi datblygu cysylltiadau llwyddiannus gydag Ysgol Penfro a sefydliadau lleol statudol/gwirfoddol.

Mae llwyddiant POPPI wedi denu llawer o ddiddordeb yn Sir Benfro a thu hwnt - yn cynnwys sefydliadau fel yr NSPCC, Achub y Plant ac asiantaethau eraill sy'n dymuno datblygu rhaglenni tebyg ar gyfer pobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig.



Y Gorau Gydag Anabledd (Coleg Sir Benfro)



Diolch i arian gan Amcan 1 mae Coleg Sir Benfro wedi gallu cynnig rhagor o gefnogaeth i bron i 400 o fyfyrwyr gydag anableddau – sy'n hwyluso mynediad i ddarpariaeth y coleg a helpu myfyrwyr i ennill cymwysterau o gyn-fynediad hyd at lefel mynediad i'r brifysgol.

Roedd rhai o brif agweddau'r prosiect yn ymwneud â datblygu rhaglenni pontio, blasu a dysgu hyblyg er mwyn cynnig yr wybodaeth a fyddai'n fodd i ddewis ar gyfer anghenion unigol, a gweithredu ar y cyd â nifer o asiantaethau yn cynnwys partneriaethau lleol gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a chartrefi preswyl preifat.

Roedd swyddog lleoliad gwaith pwrpasol yn fodd i sicrhau bod modd i fyfyrwyr gydag anableddau fynd i gael profiadau positif mewn lleoliadau gwaith. Roedd hyn y cynnwys cefnogaeth unigol, cludiant ac oriau hyblyg; gwneud addasiadau mewn mannau gweithio; a gwella agweddau cyflogwyr. Trefnwyd seminar arfer da ar Gyflogaeth gyda Chefnogaeth a mynychwyd hwn gan gynrychiolwyr rhanbarthol a lleol.

Cafodd y gwaith da gydnabyddiaeth yn y flwyddyn 2005 pan enillodd y prosiect Wobr Gynhwysol Mencap a'r RNIB i Fyfyrwyr gydag Anawsterau Dysgu ac/neu Anableddau.

- Mae Amcan 1 wedi cyfrannu tuag at hinsawdd economaidd well yn Sir Benfro ers y flwyddyn 2000.
- Mae cyfradd ddiweithdra Sir Benfro wedi gostwng o 7.8% ym mis Chwefror 2000 i 2.7% ym mis Chwefror 2006

Swyddog AGA Forol Sir Benfro (MHPA)



Mae Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) Forol Sir Benfro yn ddynodiad sy'n cynnwys yr aber yn Aberdaugleddau ac arfordir Sir Benfro bron yn gyfan gwbl.

Mae'r dynodiad yn amlygu'r ffaith bod yr ardal hon yn un o'r pwysicaf yn Ewrop o ran ei bywyd gwyllt arbennig yn y môr. Mae'n sicrhau hefyd bod y gyfraith yn diogelu ei bywyd gwyllt.

Oherwydd mai'r môr yw'r safle, nid yw mor hawdd ei reoli â'r tir, sydd bob amser yn eiddo i sefydliadau neu unigolion. Mae'n hanfodol bwysig bod rheolwyr a defnyddwyr yn gweithio gyda'i gilydd i helpu i'w ddiogelu ar gyfer yr oesoedd a ddel.

Roedd arian Amcan 1 yn fodd i gyflogi Swyddog AGA i drefnu trafodaeth rhwng yr holl garfannau ynglŷn â'r modd gorau i ddiogelu AGA Forol Sir Benfro, sy'n safle mawr a chymhleth o dan y môr.

Mae arian Amcan 1 wedi bod yn gymorth hefyd i ddatblygiadau o ran rheoli'r safle, ac mae wedi bod yn fodd i'r Swyddog AGA gynhyrchu deunydd dehongli gwerthfawr a gwefan www.pembrokeshiremarinesac.org.uk



Prosiect y Clasau

(Deon Cadeirlan Tyddewi)




Prosiect y Clasau yw'r pumed a'r mwyaf uchelgeisiol yn Rhaglen Filflwydd y Gadeirlan o waith adnewyddu.

Y prif nod oedd darparu cyfleusterau gwell ar gyfer y 300,000 o ymwelwyr sy'n dod i'r Gadeirlan bob blwyddyn. Ei fwriad hefyd oedd datrys problemau dyrys y Gadeirlan gyda gofod a gwneud cyfraniad cyfoes neilltuol i bensaernïaeth y Clos. Cyflawnwyd hyn gyda chyllid hanfodol bwysig gan Amcan 1.

Mae'r prosiect wedi ail-greu'r Clasau o'r 14eg ganrif a oedd yn cysylltu'r Gadeirlan gyda Neuadd y Santes Fair ond a aeth yn segur yn ystod yr 16eg ganrif a'r 17eg.

Codwyd y Clasau deulawr ar gynllun y clasau gwreiddiol. Yn y Clasau newydd mae toiledau, lle i arddangos trysorau'r Gadeirlan, canolfan adnoddau addysg, adran arddangos a festrïoedd.

Yn Neuadd y Santes Fair, maent wedi gosod lledlawr. Yn y Neuadd mae'r Ffreutur newydd (nad yw Amcan 1 wedi talu amdano), adran arddangos, ystafell ymarfer i'r côr a llyfrgell gerddoriaeth.



- Mae ffigyrau WEFO yn darogan y bydd mwy na 6,000 o swyddi wedi eu creu yn Sir Benfro erbyn mis Mehefin 2008.
- Erbyn mis Mehefin 2008 rydym yn disgwyl y bydd 10,000 o bobl Sir Benfro wedi ennill cymwysterau trwy gyrsiau wedi eu hariannu gan Amcan 1.

Amcan 1

Hyrwyddo Amgylchedd Glân, Iach a Gwerthfawr



Astudiaeth o Ddichonoldeb Gorsaf Bŵer Ynni'r Tonnau (Wave Dragon Wales Ltd)

Cynhyrchu ynni ar gyfer cartrefi Sir Benfro gyda thonnau sy'n codi rhwng Cymru a De America yw nod Wave Dragon Wales Limited (WDWL).

Mae'r Cwmni wedi derbyn arian Amcan 1 ar gyfer cam dichonoldeb prosiect a fydd yn defnyddio grym y tonnau sy'n torri ar lannau Sir Benfro. Mae'r prosiect yn cynnwys cwblhau'r cynllun a chael yr holl ganiatâd sy'n angenrheidiol ar gyfer gosod arddangosydd 'Draig y Tonnau' o faint llawn (7MW) dwy neu dair milltir o'r lan.
Mae Draig y Tonnau yn llwyfan sy'n nofio ar wyneb y dŵr gyda dwy adain sy'n cyfeirio'r tonnau tuag at a thros ramp, gan lenwi'r gronfa yn y cefn. Mae hyn y creu colofn o bwysau dŵr sy'n peri i'r dŵr lifo'n ôl i lefel y môr trwy dyrbinau a chreu trydan. Mae hyn yn hollol gynaliadwy ac nid yw'n creu allyriadau na nwyon tŷ gwydr.



Gyda'r camau sydd ar ddod byddwn yn gweld fferm donnau ar Fôr Iwerddon, a fydd yn defnyddio'r trawsnewidydd ynni tonnau amlfegawat (7MW) cyntaf yn y byd. Fe gewch ragor o wybodaeth ar www.wavedragon.co.uk.



Treftadaeth Amgylcheddol Sir Benfro (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)

Mae arian Amcan 1 wedi bod yn fodd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyflwyno mentrau ymarferol sy'n cadw tirlun ac amgylchedd arbennig Sir Benfro er lles y bobl leol ac ymwelwyr.

Gwellwyd y gwaith cadwraeth gyda rhywogaethau mewn perygl, a gwellwyd bioamrywiaeth mewn ardaloedd allweddol. Rhoddodd y prosiect gymorth ymarferol i ffermwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn sicrhau y byddai modd cynnal y cynllun yn y pen draw.

Roedd gwella'r ffyrdd i mewn yn hanfodol bwysig i lwyddiant y prosiect. Mae cysylltiadau gyda llwybr arfordir Sir Benfro ar gyfer ymwelwyr llai abl wedi eu gwella. Cafodd grisiau newydd eu gosod ym Mharc y Ceirw, Marloes a'r Aber Bach. Mae llwybr yr arfordir ger y Tŷ Hir ar bwys Tre-fin wedi ei ailgyfeirio gan ailgodi'r clawdd gwrych traddodiadol i gadw ansawdd y dirwedd. Rhoddwyd wyneb newydd ar faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Kete ger St Anne's Head a dehonglwyd hanes milwrol y safle.



- Mae arian Amcan 1 wedi bod yn gymorth i greu 100 o adeiladau neu safleoedd busnes newydd gyda chyfanswm o 30,000 m sg o arwynebedd llawr
- Mae Cynllun Grantiau Busnes Cyngor Sir Penfro wedi cynorthwyo 164 o fusnesau trwy ddarparu gwerth £1 miliwn o gymorth.

Genesis *(Llywodraeth Cynulliad Cymru)*



Mae Genesis Sir Benfro yn rhan o brosiect gofal plant Genesis Cymru a lansiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae rhan o gyllid Genesis Sir Benfro yn dod o Amcan 1 gyda Chyngor Sir Penfro yn arwain.

Bwriad y prosiect yw rhoi cyfle i rieni a phlant gychwyn o'r newydd trwy symud y rhwystrau sy'n wynebu llawer o rieni wrth fynd yn ôl i waith neu hyfforddiant, a darparu rhagor o ofal plant hyblyg a da y mae pobl yn gallu ei fforddio yn Sir Benfro.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddarparu cefnogaeth i rieni a'r rhai sy'n gwarchod plant ar hyn o bryd, recriwtio rhagor o warchodwyr plant a darparu rhagor o ofal plant symudol, a helpu i hybu hunan-barch a hyder rhieni, yn enwedig y mamau. Bydd y prosiect yn cynnig gofal plant am ddim neu noddedig i rieni cymwys sy'n dymuno cipio'r cyfle i weithio neu hyfforddi.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr i sicrhau bod hyfforddiant lleol a phriodol ar gael i ddiwallu anghenion rhieni. Trwy ddarparu pecyn cynhwysfawr o gyngor a chefnogaeth, mae Genesis Sir Benfro yn gallu cynnig gobaith gwirioneddol ar gyfer y dyfodol.



Grantiau Busnes Twristiaeth

(Llywodraeth Cynulliad Cymru)



Rhoddodd y prosiect ei sylw'n bennaf i fod yn fwy cystadleuol trwy fuddsoddi cyfalaf er mwyn sicrhau bod twristiaeth yn cynnig ansawdd, gwerth am arian ac amrywiaeth. Darparodd y prosiect gymorth ariannol cyfunol a chyngor arbenigol ar dwristiaeth i BBaCh.

Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda galw mawr gan BBaCh ym maes twristiaeth. Cafodd oddeutu 80 o brosiectau ychydig yn llai na £5 miliwn o grant ac o ganlyniad buddsoddwyd £13 miliwn mewn busnesau twristiaeth yn Sir Benfro a chreu neu ddiogelu oddeutu 400 o swyddi yn y diwydiant.

Cafodd Gwesty St Brides, Saundersfoot gyllid i'w helpu i fynd yn westy sba moethus. Cafodd Folly Farm gyllid tuag at adran chwarae dan do newydd a fydd yn fodd i estyn y tymor ac yng ngogledd y sir, mae clwb golff Trefdraeth wedi elwa ar fod yn rhan o'r cynllun, trwy greu llety newydd i ddenu ymwelwyr sy'n chwarae golff.

Mae'r prosiect wedi bod yn gymorth i BBaCh ym maes twristiaeth wella amrywiaeth ac ansawdd eu cynnyrch a gwasanaethau a dod yn fwy cystadleuol.



- Mae diweithdra yn llai tymhorol nag yn 2000
- Disgynnodd cyfran y bobl economaidd anweithgar yn Sir Benfro yn is na chyfartaledd Cymru yn 2000

Amcan 1

Prosiectau Rhanbarthol o Dan Nawdd Amcan1



Offer Argyfwng Personol i Bysgotwyr
(Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru Cyf)



Mae cydnabyddiaeth gyffredinol mae pysgota yw'r gwaith mwyaf peryglus ym Mhrydain. Bwriad y prosiect hwn oedd helpu i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn trwy ddarparu rhagor o offer diogelwch personol i 237 o bysgotwyr, pob un yn aelod o Gymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru Cyf.

Mae pysgotwyr masnachol trwyddedig sy'n pysgota ar gychod bach o borthladdoedd yn Ne Cymru wedi derbyn rhagor o offer diogelwch yn cynnwys rafftiau achub, ffaglau lleoli argyfwng, larymau pwll sbydu, larymau nwy, siwtiau trochi, siacedi achub hunanchwyddo a setiau radio VHF diddos.

Yn y flwyddyn 2006, bu offer diogelwch yn gyfrifol am achub bywydau pedwar pysgotwr. Llwyddodd dau o'r morwyr i hala eu rafft achub mas wrth i'r cwch suddo mewn storm. 'Wnaethon nhw ddenu sylw Gwyliwr y Glannau gyda ffagl argyfwng a llwyddodd hwnnw i gyfeirio hofrennydd i'r fan a'u hachub ymhen hanner awr. Mewn digwyddiad arall cafodd cwch ei daro gan don annisgwyl a'i droi drosodd. Denwyd sylw Gwyliwr y Glannau gyda ffagl argyfwng ac yna daeth y bad achub mas i'w hachub.



Cynllun Ailgylchu Strategol (CAS)
(Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)

Mae'r Cynllun Ailgylchu Strategol yn cael ei ariannu gan Amcan 1 a Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i weinyddu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae'n cynnwys saith o bartneriaid y mae pob un ohonynt yn gweithio 'Tuag at Sero Gwastraff' yn Sir Benfro, a'i fwriad yw annog cymunedau i weithredu ynglŷn â materion sy'n ymwneud â gwastraff.

Cyngor Sir Penfro yw'r prif bartner o ran derbyn grantiau; maent yn gweithio gyda busnesau cymunedol, gwirfoddol a chyhoeddus/preifat. Mae sefydliadau sy'n bartneriaid yn ceisio hybu'r ymwybyddiaeth o fentrau ailgylchu a chompostio gartref, gyda swyddogion i gefnogi a chydlynu tîm o wirfoddolwyr ledled y sir.

Y partneriaid yw Aberdaugleddau Plus, Cymdeithas Compostio ac Ailgylchu Abergwaun, PLANED, Cylch Peirianwaith Sir Benfro, FRAME Sir Benfro Cyf, a Rhwydwaith y Cewynnau Go Iawn.



Fe gewch ragor o wybodaeth ar y wefan www.recyclepembs.co.uk

- Yn lle'r Rhaglen Amcan 1 bydd dwy raglen newydd a fydd yn gweithredu tan 2013
- Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys dwy Raglen 'Gydgyfeirio' a'r Cynllun Datblygu Gwledig